Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Penodi Aelodau

Dyddiad cau: 01 Rhagfyr, 2025

Cynnwys

Ymgeisio 3-5

Atodiad A: Rôl Aelod 6

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 9

Atodiad C: Y broses ddethol 10

Ymgeisio

Diolch am fynegi diddordeb mewn cael eich penodi'n **Aelod** i'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.**

Bydd yr **Aelod** newydd yn **cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch diogelu pobl yng Nghymru.**

Ffeithiau allweddol am y rôl

Lleoliad:	I'w drafod / gytuno rhwng Aelodau cyfredol a newydd. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal drwy MS Teams neu yng Nghaerdydd.
Ymrwymiad amser:	2 ddiwrnod y mis
Hyd y swydd:	Penodiad cychwynnol o 3 blynedd
Tâl:	£198.00 y diwrnod ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn esbonio rôl yr **Aelod** ac yn cynnwys manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** a'r broses ddethol.

I ymgeisio, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru.

https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-509f77e961d6/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I ymgeisio am y rôl hon, cliciwch ar y swydd a chlicio ar 'ymgeisio' ar y gornel chwith yn y gwaelod. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, ac ar ôl hynny byddwch yn gallu dilyn cynnydd eich cais cyfredol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol drwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r broses gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais. I ymgeisio, bydd angen ichi uwchlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ar fanyleb y person. Chi piau'r dewis sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu i roi enghreifftiau manwl i ddangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â phob maen prawf, a'ch rôl wrth sicrhau canlyniad penodol.

Bydd yn ddefnyddiol i'r panel dethol os gallwch esbonio'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i'r meini prawf. Mae'n arfer cyffredin llunio paragraffau ar wahân yn gysylltiedig â phob maen prawf.

Cadwch eich datganiad personol yn 2 (ddwy) dudalen ar y mwyaf. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd heibio'r terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd gyfredol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau pan fuoch yn llenwi'r rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau gan Weinidogion yn y gorffennol neu'r presennol.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau	16:00 - 20 Tachwedd 2025
Dethol i'r rhestr fer	Wythnos sy'n dechrau 26 Tachwedd 2025
Cyfweliadau	Wythnos sy'n dechrau 15 Rhagfyr 2025

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gynnwys aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru, pobl o bob cefndir, i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ceisiadau gan gynulleidfa eang ac amrywiol.

Croesewir yn arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd wedi'i dangynrychioli, gan gynnwys:

- Menywod
- Pobl dan 30 oed
- Pobl o gymunedau ethnig amrywiol
- Pobl anabl
- Aelodau o'r gymuned LHDTC+

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau er mwyn i'r holl staff allu perfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o

anabledd “nam corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn rhoi sicrwydd cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl, os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf isafswm ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf isafswm' yn golygu bod yn rhaid ichi ddarparu tystiolaeth inni yn eich cais i ddangos eich bod ar y cyfan yn bodloni pob lefel cymhwystra ar gyfer y rôl, ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn 'hanfodol'.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael sicrwydd o gyfweliad, cysylltwch â Emma Logan drwy e-bost yn

Emma.Logan@llyw.cymru i roi gwybod.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Emma Logan cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Y Gymraeg

Mae’n hanfodol gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deall: Dealltwriaeth lawn o sgyrsiau ymhob sefyllfa waith

Darllen: Gall ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd mwyaf mewn sefyllfa waith

Siarad: Gall sgwrsio yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith

Ysgrifennu: Gall baratoi’r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg

Cysylltiadau

Am ragor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus

E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth am rôl y **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** a rôl **Aelod** cysylltwch â

Emma Logan

e-bost: emma.logan@gov.wales

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch âpenodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch iwww.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Y Cefndir

Cafodd y bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ('y Bwrdd Cenedlaethol') ei sefydlu o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dyma ddyletswyddau'r Bwrdd:

a) Rhoi cefnogaeth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol.

b) Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

c) Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny.

Rôl

Corff cynghori yw'r Bwrdd Cenedlaethol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar ddiogelu pobl yng Nghymru. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Byrddau Diogelu Oedolion rhanbarthol a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru.

Disgrifiad o'r Rôl

Bydd aelodau'n cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd ym maes diogelu ac amddiffyn a materion cysylltiedig, a bydd ganddynt brofiad addas i gyflawni dyletswyddau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Penodir aelodau gan Weinidogion Cymru drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus.

Manyleb y Person

Mae Gweinidogion Cymru yn dymuno penodi unigolion a all ddangos y canlynol:

Dadansoddi a dehongli

- y gallu i ddadansoddi a dehongli data cymhleth i fonitro lefelau perfformiad, gan gymharu ag amcanion cytunedig.

Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu

- y gallu i gynnig her adeiladol;
- ymagwedd gydweithredol at waith y Bwrdd;
- sgiliau gwrando da a greddfau cadarn, datblygedig;
- ymrwymiad i wneud y mwyaf o gyfraniad y Bwrdd Cenedlaethol i wella'r amgylchedd diogelu yng Nghymru.

Cyngor ac Arweiniad

- ymwybyddiaeth o'r fframwaith polisi a'r amgylchedd diogelu
- y gallu i gyfrannu at gyngor ac arweiniad ar bolisi;
- y gallu i gyfrannu at greu argymhellion ymarferol;
- y gallu i eiriol yn gadarn dros ddiogelu plant ac oedolion, ac i dynnu ar brofiad personol o faterion diogelu.

Safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol

- ymrwymiad cryf i gyfle cyfartal a dealltwriaeth o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn, disgwylir i unigolion ddangos un neu fwy o'r canlynol:

- hanes profedig o lwyddiant neu gyflawniad yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat;

- profiad uniongyrchol o weithio gydag oedolion agored i niwed mewn amgylchedd diogelu;

- profiad uniongyrchol o weithio gyda phlant mewn amgylchedd diogelu.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod, pobl anabl ac unigolion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: I'w drafod rhwng Aelodau cyfredol a newydd. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ar hyn o bryd yn

	cael eu cynnal drwy MS Teams neu yng Nghaerdydd.
Ymrwymiad Amser:	2 / 3 diwrnod y mis
Hyd y swydd:	Penodiad cychwynnol o 3 blynedd
Tâl:	£198.00 y diwrnod ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Cymhwystra

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sydd bob amser yn ymddwyn mewn modd sy'n cynnal hyder y cyhoedd.

Ni chaiff Gweinidog y Goron fod yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Ni fydd aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol ychwaith fel arfer yn aelod o Fwrdd Diogelu Plant neu Fwrdd neu Fwrdd Diogelu Oedolion.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn swydd sy'n gwneud rhywun yn anghymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.]
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i'ch penodi'n Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar wiriad o eirda a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac ar wiriad DBS a gynhelir gan Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth ymgeisio, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat, a allai wrthdaro, neu ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro, â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd / Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Bydd unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn cael ei archwilio yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo i fynd drwy'r broses sifftio a chael cyfweliad. Ymhlith agweddau eraill, bydd hyn yn cynnwys chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad i hyn, efallai y gofynnir cwestiynau ichi yn y cyfweliad ynghylch unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen hon yn:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cefndir

Cafodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ('y Bwrdd Cenedlaethol') ei sefydlu o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dyma ddyletswyddau'r Bwrdd:

a) Rhoi cefnogaeth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol.

b) Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

c) Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny.

Rôl y Bwrdd

Corff cynghori yw'r Bwrdd Cenedlaethol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar ddiogelu pobl yng Nghymru. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Byrddau Diogelu Oedolion rhanbarthol a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd aelodau'r panel cyfweld yn asesu CVs a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf orau ar gyfer y rôl yn eu barn hwy, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei chynnwys yn eich CV a'ch datganiad yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn rhoi tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei Gadeirio gan Taryn Stephens ac fe fydd hefyd yn cynnwys Tony Young, Cadeirydd y Bwrdd Annibynnol Cenedlaethol Diogelu, a 1 neu 2 Aelod Panel ychwanegol.

Gall eich cais fod ar “restr hir”, yn amodol ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, cyn ei drosglwyddo i’r panel dethol i’w ystyried. Yn y sefyllfa hon, dylech fod yn ymwybodol ei bod hi'n bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel yn penderfynu yn ystod mis Tachwedd 2025 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Rhagfyr 2025. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau naill ai drwy Microsoft Teams neu wyneb yn wyneb yng Nghathays Park, Caerdydd.

Ni fydd y panel ond yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ym manyleb y person i ddod i gyfweliad. Er hynny, os ydych chi wedi gwneud cais o dan y cynllun sicrwydd cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r **meini prawf isafswm hanfodol** ar gyfer y swydd, byddwch chi hefyd yn cael gwahoddiad i gyfweliad.

Os cewch wahoddiad i gyfweliad, ac nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn anelu i roi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl ichi o'r dyddiad hwnnw. Os na allwch ddod ar y dyddiad sydd wedi'i drefnu, byddwn yn ymdrechu i drefnu dyddiad arall, ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau ar amser o fewn yr amserlen apwyntiadau, neu am nad yw aelodau'r panel ar gael.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth drwy e-bost oddi wrth ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi cael gwahoddiad i gyfweliad.

Os byddwch yn dod i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' ym marn y panel yn cael eu hargymell i Weinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr 'penodadwy' cyn dod i benderfyniad. Os bydd hynny'n digwydd, bydd yn cyfarfod â phob ymgeisydd ym mhresenoldeb Cadeirydd y panel, neu gynrychiolydd a enwebir ganddo/ganddi. Bydd cyfnod o amser rhwng y

cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ynghylch penodi. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am unrhyw gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr i'ch penodi'n **Aelod** o'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol,** a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Oherwydd hynny, bydd y llythyr yn esbonio pwy y gallwch gysylltu â nhw i gael adborth ynghylch eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch.

Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu pob cais cyn gynted â phosibl ac yn trin pob ymgeisydd yn deg a chwrtais. Os oes gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru